Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau
Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd

05 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

**Cyfeirnod: P-05-1081**

Diolch yn fawr am eich llythyr.

Mae'n drosedd o dan Adran 12 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bleidleisio fwy nag unwaith yn etholiad Senedd Cymru.  Y gosb am y drosedd hon yw dirwy ddi-derfyn. O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Rhan 1, Adran 2(2), caiff pobl sydd wedi eu cofrestru'n gyfreithlon i bleidleisio mewn dwy ardal awdurdod lleol wahanol bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn y ddau gyfeiriad hynny.

**Rôl Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r gofrestr etholiadol**
Mae cofrestrau etholiadol yn cael eu cadw a'u cynnal gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a benodir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae yna, felly, 22 cofrestr llywodraeth leol sy'n cynnwys manylion y rheiny sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Yn flaenorol, rydym wedi argymell y byddai cofrestr electronig unigol yn ei gwneud yn haws i Swyddogion Cofrestru Etholiadol nid yn unig foderneiddio'r system etholiadol, ond hefyd sicrhau y gellir canfod cofnodion deublyg, ac felly wella cywirdeb y gofrestr etholiadol.

**Ymchwilio i dorri rheolau, a'r canllawiau a ddarperir i'r heddlu**
Nid rôl y Comisiwn Etholiadol yw ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac mae torri rheolau yn fater i'r heddlu. Cynghorwn i unrhyw un sydd â thystiolaeth y gallai rhywun fod wedi pleidleisio ddwywaith mewn etholiad ei adrodd i'r heddlu perthnasol.

Rydym wedi darparu cyngor i heddluoedd y DU ynghylch sut i ymchwilio i honiadau y gallai unigolyn fod wedi pleidleisio ddwywaith, gan gynnwys cael y copi marciedig o'r gofrestr gan Swyddogion Canlyniadau perthnasol. Mae'r gofrestr farciedig yn cofnodi'r etholwyr hynny sydd wedi derbyn a dychwelyd pecyn pleidlais bost, a'r rheiny sydd wedi derbyn papur pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall yr heddlu ddefnyddio'r wybodaeth hon i bennu a allai rhywun fod wedi cyflawni trosedd trwy bleidleisio ddwywaith. Lle bo unrhyw honiadau sy'n ymwneud â throseddau posib, yr heddlu perthnasol fyddai'n eu hystyried a chymryd camau priodol i ymchwilio i unrhyw honiadau.

Rydym yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i ddarparu canllawiau i heddluoedd, gan gynnwys datblygu Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer plismona etholiadau, a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona ar eu gwefan trwy www.app.college.police.uk/appcontent/policing-elections/.

**Ein dyletswydd statudol i adrodd ar etholiad y Senedd**

Mae’n ddyletswydd ar y Comisiwn yng Nghymru adrodd ar bob etholiad perthnasol, ac mae hyn yn cynnwys etholiad y Senedd ym mis Mai 2021. Bydd hyn yn ystyried pa mor llwyddiannus oedd yr etholiad, a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau yn etholiadau’r dyfodol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi a’i ddarparu i’r Senedd yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, rydym yn cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr ar gofrestru pleidiau, y gellir eu gweld fan hyn: A all etholwyr gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un cyfeiriad?

Hyderwn y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, a byddem yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau pellach, yn ôl y gofyn.

Yn gywir,



Rhydian Thomas.
Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru.